

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

**DYDD IAU, 5ED GORFFENAF, 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

## **Y Cynghorwyr:**

K.V. Broom, I.W. Davies, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd (yn lle S. Najmi), E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas a D.T. Williams

Mrs G. Cornock-Evans – Rhiant Lywodraethwr [Ardal Caerfyrddin]

Mrs M. Jones – Rhiant Lywodraethwr [Ardal Dinefwr]

Mrs V. Kenny – Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig

Mrs J. Voyle-Williams – Cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru

## **Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd G. Davies, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg & Phlant

## **Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

Mr G. Morgans	-	Cyfarwyddwr Addysg & Gwasanaethau Plant
Mr A. Morgan	-	Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Mr A. Rees	-	Pennaeth y Cwricwlwm a Lles
Mr S. Smith	-	Pennaeth Gwasanaethau Plan
Mr S. Davies	-	Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio
Mr G. Kirby	-	Cydllynydd Gwasanaeth Cerdd
Mrs M. Evans Thomas	-	Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.40 p.m.**

## **1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen a S. Najmi a Mr J. Davies (Rhiant-lywodraethwr).

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mrs Mputsoe, sef Swyddog Addysg o Taba Seca yn Lesotho, a oedd ar leoliad yn Sir Gaerfyrddin yn rhan o raglen oedd yn cael ei rhedeg gan Dolen Cymru lle y byddai'n dysgu am ein system addysg ac yn casglu syniadau am sut i ddatblygu'r system addysg yn Lesotho.

## **2. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL**

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
D. Jones	6 – Diweddariad ar y Gwasanaeth Cerdd – Gorffennaf 2018	Mae ei meibion yn aelodau o Wasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin
G. Jones	5 – Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg
G. Jones	6 – Diweddariad ar y Gwasanaeth Cerdd – Gorffennaf 2018	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg

G. Jones	7 – Ymagweddau at Sicrhau “Ymddygiad Cadarnhaol” yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg
G. Jones	8 – Cefnogi Cynnydd i Ddysgu, Rolau Arweinyddiaeth a Phrifathrawiaeth	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg
G. Jones	9 – Addysg Ddewisol yn y Cartref – Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i Ohebiaeth	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg
G. Jones	10 – Gweithredu Ymweliadau Cefnogi Craidd ERW ac Ysgolion sy'n Peri Gofid	Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg
B.W. Jones	7 – Ymagweddau at Sicrhau “Ymddygiad Cadarnhaol” yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin	Mae ei mab yn gweithio yn Ysgol Parc y Tywyn.
B.W. Jones	8 – Cefnogi Cynnydd i Ddysgu, Rolau Arweinyddiaeth a Phrifathrawiaeth	Mae ei mab yn gweithio yn Ysgol Parc y Tywyn
B.W. Jones	9 – Addysg Ddewisol yn y Cartref – Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i Ohebiaeth	Mae ei mab yn gweithio yn Ysgol Parc y Tywyn
B.W. Jones	10 – Gweithredu Ymweliadau Cefnogi Craidd ERW ac Ysgolion sy'n Peri Gofid	Mae ei mab yn gweithio yn Ysgol Parc y Tywyn
E. Schiavone	7 – Ymagweddau at Sicrhau “Ymddygiad Cadarnhaol” yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin	Mae ei wraig yn gweithio yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
E. Schiavone	8 – Cefnogi Cynnydd i Ddysgu, Rolau Arweinyddiaeth a Phrifathrawiaeth	Mae ei wraig yn gweithio yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
E. Schiavone	9 – Addysg Ddewisol yn y Cartref – Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i Ohebiaeth	Mae ei wraig yn gweithio yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
E. Schiavone	10 – Gweithredu Ymweliadau Cefnogi Craidd ERW ac Ysgolion sy'n Peri Gofid	Mae ei wraig yn gweithio yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
Mrs M. Jones	5 – Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18	Mae hi'n cael ei chyflogi gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Mrs V. Kenny	5 – Mater wedi'i gyfeirio gan y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Mae ei merch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

### 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

### 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2017/18

[NODER: Roedd y Cynghorydd G. Jones a Mrs M. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad yn y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn, a'i bod yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ynghylch ei Amcanion Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn cynnwys yr Amcanion Llesiant a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant. Roedd yr adroddiad yn bwrw golwg gyffredinol ar berfformiad 2017/18, adroddiadau cynnydd ar gyfer pob un o'r 15 Amcan Llesiant a dolen i olrhain cynnydd pob cam gweithredu penodol a tharged a roddwyd i bob Amcan Llesiant. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am berfformiad a data alldro (mis Medi) a chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (mis Mehefin), a fyddai'n cael eu diweddarau pan fyddai'r canlyniadau ar gael.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod 29.4% o blant dros bwysau neu'n ordew. Gofynnwyd i swyddogion am y data hwn a pha adborth sy'n cael ei roi i rieni. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor cynhyrchwyd y data gan y Bwrdd Iechyd. Eglurodd fod nifer o gynlluniau ar gael sy'n ymwneud â gordewdra yn ystod plentyndod ac sy'n cael eu hyrwyddo ar raddfa eang, er enghraifft clybiau bwyta'n iach. Mae swyddogion yn gweithio ar amryw o gynlluniau gyda chydweithwyr o'r Adran Hamdden;
- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch mwy o gysoni rhwng y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a Dechrau'n Deg, ac eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod Dechrau'n Deg yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan y Llywodraeth ac sy'n rhoi cymorth i blant sy'n byw yn ardaloedd difreintiedig y sir. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ymyrryd pan gydnabyddir bod angen cymorth ychwanegol ar blant a bod angen dull o weithio mewn tîm, ac mae'n caniatáu i asiantaethau megis iechyd, gofal cymdeithasol ac ati ddod ynghyd a gweithio'n agos gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod asesiadau sy'n cael eu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cwmpo i 39.9% a gofynnwyd i'r swyddogion am eglurhad. Eglurodd y Cyfarwyddwr y gallai hyn fod oherwydd amrywiaeth o resymau, er enghraifft bod mwy o blant wedi mynd i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg eleni. Ychwanegodd y byddai swyddogion yn dadansoddi'r ffigurau'n fanwl ac yn dosbarthu'r wybodaeth i aelodau;
- Mynegwyd pryder bod ysgol yn cofnodi'r adeg pan fo plentyn yn ymweld ag orthodontydd yn absenoldeb wedi'i awdurdodi yn hytrach nag yn un meddygol, a gofynnwyd i'r swyddogion a fyddai modd gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod swyddogion yn trafod â Llywodraeth Cymru ynghylch codau absenoldeb ar hyn o bryd.

- Gofynnwyd beth allai gael ei wneud ynghylch plant sy'n absennol o'r ysgol yn rheolaidd, ac eglurodd y Cyfarwyddwr mai nifer fach yn unig sydd yn y sir a bod y Tîm Llesiant yn gweithio gyda'r teuluoedd hyn i roi cymorth iddynt. Mewn rhai achosion mae camau cyfreithiol yn cael eu cymryd ac mae'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod ystadegau presenoldeb yn well o lawer nag yr oeddent bum mlynedd yn ôl ac oherwydd bod cymaint o welliant wedi cael ei wneud mae'r ffocws bellach ar ddisgyblion sy'n bresennol llai na 85% o'r amser.

## **PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

### **6. DIWEDDARIAD AR Y GWASANAETH CERDD: GORFFENNAF 2018**

[NODER: Roedd y Cynghorydd D. Jones a G. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Mawrth, 2018, wrth ystyried Adroddiad Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2009/2010, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol ynghylch y problemau sy'n wynebu Gwasanaeth Cerdd y sir.

O ddydd i ddydd, mae Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin yn darparu'r canlynol:-

- gwasanaeth cerdd peripatetig i 79 o ysgolion yn y sir;
- hyfforddiant i dros 5,000 o ddisgyblion ar draws amrywiaeth o wersi offerynnol a lleisiol, sy'n cael eu darparu gan 32 o staff (24 Cyfwerth ag Amser Llawn);
- cymorth statudol ar gyfer y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn 7 o ysgolion;
- cyfleoedd perfformio ar draws yr holl gyfnodau allweddol ac mae:
  - 11 ensemble iau yn ymarfer bob tymor, ac uchafbwynt hynny yw'r Proms Iau blynyddol ar ddiwedd tymor yr haf;
  - 3 ensemble lefel ganolradd yn ymarfer yn wythnosol, gan arwain at yr Ŵyl Ganolradd flynyddol;
  - 5 ensemble hŷn yn ymarfer bob tymor, gan arwain at yr Ŵyl Gerddoriaeth Hŷn flynyddol.

Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin yn uchel ei barch ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn y sir ac yn genedlaethol ac oherwydd nifer o berfformiadau llwyddiannus a chyflawniadau, mae ei broffil wedi codi yn y Deyrnas Unedig ac yn Ewrop.

Mae'r gwasanaeth wedi bod o dan bwysau ariannol dwys dros y blynyddoedd diwethaf a chafwyd diffyg cyllid o £169,127 ar gyfer 2017/18. Gallai hyn yn bennaf fod oherwydd gostyngiad mewn ysgolion yn adbrynu hyfforddiant oherwydd gwasgfydd ariannol ac ati. Yn ogystal mae nifer o heriau cenedlaethol sylweddol, sy'n cynnwys gostyngiadau o ran prynu Cytundebau Lefel Gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i gynnydd o ran cyfraddau a newidiadau i gontractau. Bu sôn am gyllid cenedlaethol ond, yn y cyfamser, roedd hi'n hanfodol meddwl am ffyrdd o sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw deupen llinyn ynghyd.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd i swyddogion pryd y gallem ddisgwyl datganiad cadarn mewn perthynas â chyllid a datblygiadau cenedlaethol. Eglurodd Cydlynnydd y Gwasanaeth Cerdd fod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch cyllid ar gyfer y dyfodol ac mae £2 filiwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer y ddwy flynedd nesaf i edrych ar y modd y gellir datblygu gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru;
- Gofynnwyd a oedd darparu gwasanaeth cerddoriaeth mewn ysgolion yn rhatach na darparu staff cyflenwi, ac eglurodd Cydlynnydd y Gwasanaeth Cerdd ei fod yn gallu bod yn rhatach, ond mae'n fwy i wneud â'r ffaith nad yw staff cyflenwi o bosibl yn darparu'r hyn y mae'r ysgol ei angen, ond bod Gwasanaeth Cerdd yn diwallu anghenion yr ysgol.
- Gofynnwyd pa mor bendant ydynt nad yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd i gael effaith ar blant ac ar safonau, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y gwasanaeth wedi newid y llynedd o ddarparu'n wythnosol i ddarparu bob hanner tymor, a oedd wedi cael effaith sylweddol ar safonau, felly mae'r strwythur gwreiddiol wedi cael ei roi yn ôl ar waith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae swyddogion yn ceisio torri costau cymaint â phosibl heb leihau'r gwasanaeth.
- Gofynnwyd faint o ysgolion oedd heb gofrestru ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth a pham nad oeddent wedi cofrestru. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor ei bod ar brydiau yn anodd perswadio ysgolion ynghylch agweddau cadarnhaol cerddoriaeth, er enghraifft sgiliau echddygol, a gwneud i bobl ymlacio. Os nad yw rhai ysgolion yn defnyddio'r gwasanaeth am gyfnod, mae swyddogion yn gofyn i'r ysgol beth yr hoffai i'r gwasanaeth ei gynnig. Mae mwy o ysgolion yn cofrestru i'r CLG yn brydlon oherwydd trefniadau gweinyddol newydd, ond nid yw'r union ffigurau wedi'u cwblhau eto. Fodd bynnag, roedd problem gyda'r ysgolion mwy gwledig oherwydd gallai gymryd 2 awr i deithio yno ac yn ôl am hanner awr o adbrynu hyfforddiant;
- Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd hi fod y gwasanaeth cerddoriaeth ar gael i'r holl blant yn y sir. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor fod yr adran wedi amsugno'r gorwariant y llynedd, ond roedd hi'n hanfodol ystyried dyrannu cyllid craidd er mwyn diogelu'r gwasanaeth.

## PENDERFYNWYD

**6.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;**

**6.2 bod y Pwyllgor yn cael adroddiad diweddarau cyn gynted ag y bo gwybodaeth yn dod i law ynghylch datblygiadau cenedlaethol.**

## 7. YMAGWEDDAU TUAG AT SICRHAU 'YMDDYGIAD CADARNHAOL' YN YSGOLION SIR GAR.

[NODER: Roedd y Cynghorwyr B.W. Jones, G. Jones ac E. Schiavone wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg ar yr arferion a'r cyfarwyddyd presennol o ran cefnogi ymddygiad cadarnhaol a gwrth-fwlio yn ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes helaeth a chadarn o weithio'n effeithiol yn y maes hwn, gan gyfeirio at elfennau niferus o waith ymchwil ac arferion da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch yr ystod o strategaethau sydd ar gael i'n hysgolion i gyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad cadarnhaol ynghyd â'n disgwyliad amlwg o ran cadw pawb yn ddiogel rhag unrhyw lefel o fwlio.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd sut y mae cynnydd yn cael ei fonitro a sut y mae mesur a yw bwlio'n cael ei leihau, ac eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod y broses fonitro'n cynnwys ystod o weithgareddau megis Ymgynghorwyr Her yn ymweld ag ysgolion a holiaduron yn cael eu dosbarthu i ysgolion yn flynyddol i adolygu cynnydd ac effaith strategaethau o'r fath;
- Gofynnwyd a oedd yr holiaduron yn cael eu targedu at ddisgyblion neu athrawon, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod un holiadur ar gyfer arweinwyr ysgolion i'w gwblhau, a fersiwn electronig yw'r llall y mae ysgolion yn ei ddosbarthu i'w dysgwyr. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y bydd gan ysgolion eu ffyrdd eu hunain o gofnodi boddhad disgyblion a mesurau llesiant. Mae'r adran yn casglu'r data hwnnw a gallai canlyniadau unrhyw arolygon gael eu dosbarthu i'r pwyllgor er gwybodaeth;
- Gofynnwyd a allai'r holiaduron gynnwys sylwadau ynghylch yr effaith y gallai ymddygiad gwael ei chael ar athrawon, ac eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg y byddai ymweliadau craidd Ymgynghorwyr Her yn mynd i'r afael â hyn, ac os byddai unrhyw bryder yn codi byddent yn darparu'r cymorth sydd ei angen;
- Cyfeiriwyd at y ffaith yr ymddengys bod nifer o gynlluniau gwahanol mewn ysgolion a phwysleisiwyd bod angen cysondeb ar draws y sir gan fod bwlio yn gallu diffinio gweddill bywyd rhywun. Gofynnwyd i swyddogion a fyddai'n bosibl gweithredu polisi gwrth-fwlio ledled y sir a fyddai'n cynnwys y ddeddfwriaeth wrth-fwlio ddiweddaraf. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod yr Awdurdod yn gallu darparu fframwaith a dogfen dempled. Ychwanegodd mai'r modelau effeithiol iawn mewn ysgolion yw'r rheiny sydd wedi cael eu paratoi gan yr ysgolion eu hunain. Eglurodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod pethau'n newid o gofio am e-ddiogelwch a pheryglon y cyfryngau cymdeithasol. Mae llesiant yn prysur dyfu fel thema yn ein hysgolion ac mae Rheolwr Ymddygiad a Llesiant wedi cael ei secondio i weithio ar strategaethau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol;
- Yn y cyd-destun hwn cyfeiriwyd at lwyddiant y cynllun Siaradwr a chytunodd swyddogion i roi data i'r Pwyllgor ynghylch y nifer sy'n defnyddio'r cynllun;
- Mynegwyd pryder nad yw plant sy'n cael eu bwlio yn gallu cael cludiant i fynychu ysgol arall. Pwysleisiodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant pa mor bwysig yw sicrhau bod y diwylliant/amgylchedd yn yr ysgol yn iawn er mwyn i ddisgyblion beidio â themlo'r angen i symud ysgolion.

## PENDERFYNWYD

### 7.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;



**7.2 bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a fydd yn cynnwys data sy'n mesur effeithiolrwydd cynlluniau ymddygiad cadarnhaol.**

## **8. CEFNOGI CYNNYDD I DDYSGU, ROLAU ARWEINYDDIAETH A PHRIFATHRAWIAETH**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr B.W. Jones, G. Jones ac E. Schiavone wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn amlinellu'r meysydd gweithgarwch presennol yn Sir Gaerfyrddin ac yn genedlaethol, a hynny er mwyn cefnogi'r canlynol:-

- mynediad i yrfa addysgu ac anogaeth ohoni; a
- chymorth ar gyfer cefnogi cynnydd o ran arweinyddiaeth i rolau uwch a phrifathrawiaeth.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael i'n gweithlu er mwyn cefnogi gwell arferion arwain, hunan-ddatblygiad a chyflawniad.

Mae ERW wedi mynd ati i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod ar y strategaeth #DarganfodAddysgu sy'n anelu at annog rhagor o bobl i ddal ar y cyfle i gael gyrfa mewn addysgu sy'n rhoi llawer o bleser.

Mae ERW a'r Awdurdod hefyd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar gael yn rheolaidd i gefnogi gweithlu ein hysgolion. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwrpasol yn cael eu darparu ar amrywiaeth o lefelau arweinyddiaeth, gan geisio nid yn unig i gryfhau a gwella sgiliau ein gweithlu, ond hefyd i ategu'r neges allweddol o ran yr effaith y gall arweinyddiaeth ddsbarthol gael yn ein hysgolion.

Dros gyfnod, mae Sir Gaerfyrddin wedi chwarae rhan annatod wrth ddatblygu cynnwys y rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawon, gan sicrhau ein bod yn darparu cymorth a chyfleoedd i ymgeiswyr er mwyn iddynt gael y cymhwyster gorfodol ar gyfer prifathrawiaeth yng Nghymru. Ymhlith carfan 2017/2018, gwelwyd nifer fawr o ymgeiswyr o Sir Gaerfyrddin yn astudio'r cymhwyster, sef 16. Cyrhaeddodd pob un o'r 16 y safon ac mae'r nifer fawr hon o ymgeiswyr, na welwyd mo'i thebyg o'r blaen (o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yn rhanbarth ERW), yn dystiolaeth o'r effaith gadarnhaol y mae'r nifer o gyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'i chael ar ein Darpar Arweinwyr. Bellach bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus hyn ar gael i gefnogi ein hagenda arweinyddiaeth yn unol ag anghenion ein hysgolion.

Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi cael gwahoddiad i rannu arferion gorau drwy'r rhaglen ymarferydd arweiniol sy'n darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol gwerthfawr. Mae ysgolion yn cael eu hariannu i gefnogi eraill yn unol â'r ddewislen gymorth y cytunwyd arni yn y broses gategoreiddio. Mae ymarferwyr yn arwain ar brosesau hunanwerthuso effeithiol neu ddatblygu strategol mewn ffederasiwn.

Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi ysgolion i rannu arferion gorau ac yn darparu cyfleoedd arwain pwrpasol ar gyfer darpar arweinwyr.

Mae Ymgynghorwyr Her wedi canolbwyntio'n fanwl ar y broblem o ran llwyth gwaith athrawon yn ystod eu hymweliadau craidd, ac felly'n cefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o fynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith mewn perthynas â phrosesau marcio ac adborth. Mae cyngor a chanllawiau wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau llwyth gwaith athrawon ac mae'n llywio newid diwylliannol yn y proffesiwn mewn modd adeiladol, a hynny mewn perthynas â disgyliadau o ran marcio ac adborth.

Er mwyn cefnogi arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion mae ystod o adnoddau enghreifftiol gan gynnwys polisïau, enghreifftiau o strategaethau hunanwerthuso a monitro wedi cael eu creu, gan roi ystyriaeth i'r heriau penodol sy'n wynebu ein hysgolion llai. Nod y cyfeirlyfr hwn a'r gronfa o adnoddau yw darparu deunyddiau cyfeirio gwerthfawr i arweinwyr, rhannu arferion gorau a lleihau pwysau gwaith. Gan fod ERW yn gwybod bod angen rhannu anghenion arferion gorau mewn modd agored, rheolaidd ac ymarferol, mae wedi datblygu model sy'n nodi arferion o'r fath a hynny drwy sicrhau bod ysgolion yn cydweithio ag Ymgynghorwyr Her yn ystod yr ymweliadau cymorth craidd. Mae'r meysydd o arferion gorau y cytunwyd arnynt yn cael eu rhannu ar wefan ERW, sef Dolen, ac felly mae'n darparu cyfeirlyfr i ysgolion. O ganlyniad mae cymorth ysgol-i-ysgol yn cael ei sicrhau, gan ddiybennu ar arweinwyr ar bob lefel i rannu strategaethau a rhoi cymorth i ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i staff ddatblygu eu sgiliau arwain gan feithrin rhwydweithiau a chydweithio effeithiol yn ein holl ysgolion yn ERW.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Pwyllgor wedi gwneud cais am adroddiad ar recriwtio a chadw athrawon a phenaethiaid oherwydd nifer y swyddi gwag yn y sir, ond nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw ystadegau'n ymwneud â nifer y swyddi gwag sydd wedi cael eu llenwi a faint sy'n parhau i fod yn wag ac ati. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg i ddosbarthu'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor;
- Gofynnwyd a oes unrhyw drefniadau'n bodoli mewn ysgolion lle y mae aelodau iau o staff yn cysgodi penaethiaid ac a ydy hyn yn cael ei wneud ar draws clystyrau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg wrth y Pwyllgor fod rhai elfennau'n cael eu gweithredu, ond gellid helaethu hyn.

## **PENDERFYNWYD**

**8.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;**

**8.2 bod y Pwyllgor yn cael adroddiad am y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.**

## **9. ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF: YMATEB YR YSGRIFENNYDD CABINET I OHEBIAETH**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr B.W. Jones, G. Jones ac E. Schiavone wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]



Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018, wrth ystyried adroddiad ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, penderfynodd y Pwyllgor y byddai swyddogion yn ysgrifennu llythyr i Lywodraeth Cymru yn mynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch y problemau â phlant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a'r rhai sy'n cael addysg hyblyg.

Cafodd y llythyr ei anfon yn briodol at Kirsty Williams, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a chafwyd ymateb ar 27 Mehefin, a gafodd ei ddsbarthu i aelodau er gwybodaeth.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder unwaith eto ynghylch amwysedd y term "addysg addas" a'r ansicrwydd ynghylch y diffiniad cywir;
- Gofynnwyd a oedd yr Awdurdod wedi defnyddio Gorchmynion Presenoldeb yn yr Ysgol, a rhoddodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant wybod bod y dull hwn wedi cael ei archwilio'n gymedrol.
- Mynegodd y Pwyllgor ei sicrwydd fod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r problemau hyn nawr, ac nid yn llaesu dwylo ac yn aros i'r strategaeth gael ei chyhoeddi.

## **PENDERFYNWYD**

**9.1 bod yr ymateb oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei nodi;**

**9.2 bod y gwahoddiad i Su Crowther gyflwyno eitem ar lythyr y Pwyllgor, ac ymateb Ysgrifennydd y Cabinet yn cael eu derbyn yng nghyfarfod nesaf Rhanddeiliaid Addysg Ddewisol yn y Cartref yr Awdurdod Lleol.**

## **10. GWEITHREDU YMWELIADAU CEFNOGI CRAIDD ERW AC YSGOLION SY'N PERI GOFID**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr B.W. Jones, G. Jones ac E. Schiavone wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg ar waith yr Ymgynghorwyr Her a'r Tîm Gwella Ysgolion o ran cynnal ymweliadau cefnogi craidd ERW yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 a'r cynnydd a wnaed mewn ysgolion oedd yn peri gofid.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at Baneli Gwella Ysgolion a gofynnwyd i swyddogion beth y mae'r aelodaeth yn ei chynnwys. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod yr aelodaeth yn amrywio o ysgol i ysgol, ond mae'r Pennaeth bob amser yn cael ei gynnwys, a gallai rhai eraill gynnwys Arweinwyr Cyfnod Allweddol, Ymgynghorwyr Her a swyddog Awdurdod Lleol;
- O ran safon yr Ymgynghorwyr Her, gofynnwyd i'r swyddogion a oedd yr Awdurdod yn gwirio a ydy penaethiaid yn hapus â'r gwasanaeth maent yn ei gael gan ERW. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod trafodaethau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ag arweinwyr ysgol ynghylch y mater hwn.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**11. ATGYFEIRIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT**

[NODER: Roedd Mrs V. Kenny wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac lechyd yn ystyried adroddiad ar Ofalwyr Ifanc yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf, 2018, yn rhan o'i Flaenraglen Waith. Fodd bynnag, roedd swyddogion wedi nodi, oherwydd bod Gofalwyr Ifanc o dan orchwyl y Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant, y dylai adroddiad o'r fath gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor hwnnw yn y dyfodol. Roedd swyddogion hefyd yn teimlo, gan fod gan aelodau o'r Pwyllgor Craffu – Gofal ymdeithasol ac lechyd ddiddordeb arbennig mewn gofalwyr, y dylent gael eu gwahodd i'r cyfarfod pan fydd yr adroddiad yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD bod Gofalwyr Ifanc yn cael eu rhoi ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant a fydd yn cael ei gynnal ar 27 Medi, 2018 a bydd y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac lechyd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol i ystyried yr eitem honno.**

**12. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 27 Medi, 2018.**

**13. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 7FED MEHEFIN, 2018**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2018 gan eu bod yn gywir.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**